# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 29AIN TACHWEDD, 2022**

Lleoliad

**Yn Rhithiol Drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 21 Tachwedd 2022)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Paul John Rowlinson

Meryl Roberts

Elin Walker Jones

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Sedd Wag x 3

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Elwyn Jones a Medwyn Hughes

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill**

| | |
|---|---|
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Naomi Wood | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Bethan Davies Jones | Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg |
| Nathan Abrams | Iddewiaeth |
| Dr Sibani Roy | Hindwaeth |
| Mr Mohamed Arabi | Islamaidd |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |

**Athrawon**

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Set Wag – UCAC | UCAC |
| Set Wag – SHA | SHA |
| Set Wag – ASCL | ASCL |
| Set Wag – NAHT | NAHT |

**Aelodau Cyfetholedig**

# R H A G L E N


**1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

Cyfle am weddi neu fyfyrdod tawel

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**4. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw faterion sydd o frys ym marn y Cadeirydd ar gyfer ystyriaeth

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

**6. AELODAETH A GWAITH CYSAG**

Cyflwyniad gan Aelodau CYSAG a golwg ar waith CYSAG

**7. SUT GALL CYSAG FONITRO SAFONAU O FEWN YSGOLION GWYNEDD O 2022?** 8 - 25

Papur trafod ar ffordd bosib ymlaen

**8. DIWEDDARIAD : MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU** 26 - 28

Diweddariad ynglyn a'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn i Cwricwlwm Newydd

**9. GOHEBIAETH WEDI EI DDERBYN GAN Y CYSAGAU** 29 - 31

I rannu gohebiaeth fel a ganlyn :

a. Cynhadledd yr Hydref y CYSAGAU
b. Manylion yr Wythnos Ryng-Ffydd

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 12/07/2022

**Yn Bresennol :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Meryl Roberts, Paul Rowlinson a Beca Brown (Aelod Cabinet)

**Eraill:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill :** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig) a Naomi Wood (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Athrawon :** Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion :** Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr y Cyngor)

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson a chymerwyd y cyfle am fyfyrdod tawel.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y cyfnod 2022/23. Diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Rowlinson am Gadeirio CYSAG dros y pum mlynedd diwethaf.

## 3. ETHOL IS GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is Gadeirydd y pwyllgor hwn am y cyfnod 2022/23.

## 4. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cathryn Davey, Y Cynghorydd Elin Walker Jones a Gwawr M Williams.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 6. MATERION BRYS - DIWEDDARIAD AR Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU

Cytunodd y Cadeirydd i gais i drafod yr uchod fel mater brys. Nodwyd siom, er bod y Gynhadledd Cytunedig wedi ei chynnal ers 15 Chwefror, 2022, oedd mewn da bryd ar gyfer y tymor newydd, nad oedd yr Awdurdod wedi gallu symud materion ymlaen. Yn ychwanegol, nodwyd pryder am y diffyg arweiniad gyda y camau nesaf. Cadarnhawyd bod cyngor wedi dod i law erbyn hyn, a'i bod yn ymddangos bod angen cymeradwyaeth y Cabinet cyn gallu symud ymlaen a rhyddhau y maes llafur cytunedig yn ffurfiol i Ysgolion. Nodwyd yr angen i'r Adroddiad fynd gerbron y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Medi yn cynnig argymell derbyn y ddau faes llafur cytunedig. Nodwyd pryder bod nifer o ysgolion yn cychwyn y tymor newydd heb arweiniad, yn enwedig yr ysgolion sydd yn cyflwyno i Flwyddyn 7 ym mis Medi, gan mai argymell parhau gyda yr un presennol i Flwyddyn 8 ymlaen oedd yr argymhelliad. Cadarnhawyd bod arolygiadau Estyn yn ail-gychwyn hefyd a nodwyd effaith yr uchod ar arolygiadau Estyn.

**PENDERFYNWYD,** yn dilyn y gynhadledd, trafod yr uchod, ac er mwyn arbed llithriad pellach, bod yr Adran Addysg yn paratoi adroddiad ar gyfer sylw y Cabinet cyn gynted â phosib, yn argymell derbyn y ddau faes llafur cytunedig a argymhellwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022.

Ymddiheurwyd na fyddai modd rhyddhau y maes llafur yn ffurfiol i Ysgolion, nes derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

## 7. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y tri chyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021, 23 Tachwedd 2021 ac 1 Chwefror 202210 Chwefror, 2021 fel rhai cywir, a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi. Nodwyd y pryder nad oedd modd i lawer o weithgareddau arferol CYSAG gymryd lle, nid yn unig oherwydd y sefyllfa Covid, ond oherwydd y sefyllfa o ran diffyg quorum yn y tri cyfarfod diwethaf.

## 8. AELODAETH CYSAG

Cadarnhawyd bod nifer o seddi gwag ar CYSAG er bod gwahoddiadau wedi eu hymestyn i'r enwadau, yn dilyn ail-edrych ar y Cyfansoddiad yn 2019. Amlygwyd yr angen i ail-edrych ymhellach ar y Cyfansoddiad o ran seddi gwag y cynrychiolwyr athrawon. Cadarnhawyd, yn sgil uno undebau a'r nifer cynyddol o aelodau yn y tair prif Undeb erbyn hyn, bod angen llenwi pum sedd athrawon yn y Cyfansoddiad. Awgrymwyd y byddai yn fuddiol cynnig sedd yr un i gynrychiolwyr y tair prif undeb, ynghyd â cheisio cynrychiolydd o GYDGA a GCSU. Cytunwyd bod hon yn ffordd dda o lenwi y seddi, ac y byddai yn ffordd o annog cydweithio da rhwng Undebau, cynrychiolydd o'r sector uwchradd a chynrychiolydd o'r sector gynradd.

O ran yr enwadau crefyddol, nodwyd bod y Cabinet wedi penderfynu ymestyn y cynrychiolwyr i gynnwys Iddewon a Mwslemiaid, ac er ei bod yn ymddangos bod swyddogion wedi ceisio cael cynrychiolwyr, nad oeddynt wedi llwyddo, ond nodwyd bod angen parhau i geisio cael cynrychiolwyr.

**PENDERFYNWYD**:

1. Yn dilyn y gwaith ail-edrych ar Gyfansoddiad CYSAG yn 2019, ble ychwanegwyd at y crefyddau, mewn ymateb i'r pryder bod nifer o seddi gwag ar CYSAG, penderfynwyd bod angen gofyn i'r Cabinet ail-edrych ar yr Aelodaeth eto.

2. Paratoi adroddiad i'r Cabinet, yn argymell addasu y Cyfansoddiad i gynnwys pum sedd addysg, i gynnwys y Prif Undebau a chynrychiolwyr o GYDGA a GCSU.

3. Ail holi am aelodau i gynrychioli'r Eglwys Fethodistaidd a'r Annibynwyr a'r crefyddau eraill nad ydynt wedi enwebu cynrychiolwyr eto

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020-2021**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr Adroddiad, a chytuno i ail-ymweld â'r Holiadur Addysg Grefyddol sydd yn cael ei ddosbarthu i ysgolion, gan ystyried ei addasrwydd yn ei ffurf bresennol.

**10. MATERION CYSAGau**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr ohebiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 4.20 p.m.

**CADEIRYDD.**

# Sut Gall CYSAG fonitro Safonau o fewn ysgolion Gwynedd o 2022 ymlaen

## Cefndir

Hyd at cyfnod Covid roedd ysgolion yn cael holiadur hunanarfarnu ar ran  CYSAG Gwynedd a baratowyd yn wreiddiol gan yr Ymghynghorydd Addysg Grefyddol ar y pryd (Bethan James) fel rhan o'r ddogfen **Sut Gall CYSAG fonitro Safonau** (Atodiad 1). Roedd yr hunanarfarniadau yma yn cael eu rhannu gyda'r CYSAG yn dymhorol (atodir un o'r rhai olaf a dderbyniwyd yn Atodiad 2). Roedd ysgolion yn derbyn yr holiadur i'w lenwi yn dilyn arolwg gan ESTYN ac roedd yr hunanarfarnu felly'n cyd-fynd â rhaglen arolygu ESTYN.

Yn dymhorol paratowyd dogfen monitro ar gyfer y CYSAG oedd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiad ESTYN ynghylch pob ysgol a arolygwyd yn ystod y cyfnod blaenorol yn ogystal a chrynodeb o sylwadau perthnasol ESTYN. Atodir y ddogfen monitro ddiwethaf a baratowyd yn Atodiad 3.

## Sefyllfa Gyfredol

Daeth arolygiadau ESTYN o ysgolion i ben dros dro o Fawrth 2020 hyd Mai 2022. Mae gan Estyn bellach ddull arolygu newydd mewn ysgolion. Nid yw eu hadroddiadau arolygu yn cynnwys graddau crynodol mwyach (e.e. 'Rhagorol', 'Da' neu 'Digonol'). Yn hytrach na chanolbwyntio ar raddau, mae'r adroddiadau'n manylu ar ba mor dda mae darparwyr yn helpu plentyn i ddysgu.

Bydd trosolwg allweddol o'r canfyddiadau yn cael ei gynnwys ym mhennawd yr adroddiad, yn canolbwyntio ar gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r dull newydd yn alinio â natur bersonol y cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'r adroddiadau ar gyfer y 3 ysgol o Wynedd a arolygwyd yn ystod Mai 2022 bellach ar gael. Ceir is-adran o fewn Prif Ganfyddiadau pob adroddiad ar Ofal, cymorth ac arweiniad o fewn yr ysgol. O fewn yr is-adran yma ceir rhai sylwadau am ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ynghyd â chyd-addoli. Atodir y sylwadau yma am y 3 ysgol yng Ngwynedd lle mae adroddiad wedi' gyhoeddi yn Atodiad 4.

Bellach mae'r Cwricwlwm i Gymru yn statudol yn ysgolion cynradd Cymru ac ysgolion Uwchradd yn gorfod ei fabwysiadu'n ffurfiol erbyn Medi 2023. Mae'r Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn elfen mandadol o'r cwricwlwm sy'n dod o dan y Maes y Dyniaethau yn statudol a disgwylir i ysgolion Gwynedd weithredu o fewn y Maes Llafur Cytunedig a gyhoeddwyd gan CYSAG Gwynedd. Yn sgil y newid mawr yma mae'r gofyn a'r broses hunanarfarnu yn wahanol iawn mewn ysgolion erbyn hyn gyda gwaith pellach yn digwydd ar lefel genedlaethol i sefydlu systemau adrodd ac arfarnu i ysgolion sy'n cyd-fynd a'r cwricwlwm i Gymru Newydd.

## Sut gall CYSAG Gwynedd fonitro safonau i'r dyfodol

Mae ymdrech wirioneddol o fewn y gyfundrefn addysg yn lleol yma yng Ngwynedd ac ar lefel genedlaethol i leihau a symleiddio'r bwrdwn ar ysgolion o ran paratoi adroddiadau a tydi'r un wybodaeth a ddefnyddiwyd hyd at 2020 ddim ar gael yn hwylus gan ysgolion i lenwi'r holiadur hunan-arfarnu fel ag yr oedd.

Beth felly yw'r opsiynau a'r ffordd ymlaen fel bod y CYSAG yn parhau i fedru monitro safonau heb ychwanegu bwrn i raglen waith Penaethiaid ac ysgolion?

## Atodiad 1

# Sut y gall CYSAG fonitro safonau?

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**
- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**
- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**ESTYN**





Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bump maes arolygu:
1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br>Newyddion Addysg Grefyddol<br>Religious Education News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol; |

| | |
|---|---|
| | • Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae ddarpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar maes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r darpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn ddiddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?

- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadau ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth crefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




### Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunanarfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

### Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadleuaethau, achrediadau allanol.

### Rhifau - meintiau a chyfrannau

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

### Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

### Geiriau/ymadroddion defnyddiol

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

### Beth ddylid ei gynnwys?

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

| |
|---|
| ***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau: |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| Nodiadau: |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |

| |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**
Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

# Atodiad 2

**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Llandwrog**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Mynegir gwerthoedd penodedig Gristnogol yn glir. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o aelodau'r ysgol yn adnabod nodweddion penodedig gwerthoedd yr ysgol ac yn nodi sut maent yn effeithio ar eu bywyd beunyddiol a'u cyflawniadau. Gweledigaeth yr Ysgol yw ein bod yn darparu awyrgylch ac amodau lle y gall pob plentyn ffynnu. Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.
- Mae gan yr ysgol ddiffiniad clir o ysbrydolrwydd y mae'r rhan fwyaf o oedolion yn ei ddeall. Nodir profiadau yn y cwricwlwm, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hysbrydolrwydd. Mae dysgwyr yn ymateb yn dda ac yn datblygu'r gallu i fynegi eu meddyliau'n glir a hyderus. Cynhelir gwasaneth wythnosol yn yr eglwys dan arweiniad y Parchedig Lloyd, a chymerir cyfleon i gynnal gwsanaethau cristnogol rheolaidd yn yr eglwys megis Diolchgarwch, Nadolig a gwasanaeth ffarwelio diwedd blwyddyn. Mae cyfle hefyd i flwyddyn 6 yn flynyddol ymweld a'r Gadeirlan i fynychu gwasanaeth dathlu a pontio cynradd/uwchradd. Gwelir y cyswllt yma a'r eglwys yn rhagorol.Mae'r berthynas yma wedi cael ei ymestyn at y Gadeirlan ym Mangor gyda un disgybl yn aelod o gôr y gadeirlan.
- Mae cymeriad a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr. Mae'r ysgol yn cyfrannu yn rheoliadd i elusennau lleol a chenedlaethol megis McMillan, Teams2U ayyb Rydym hefyd yn ail-gylchu dillad yn yr ysgol sydd nid yn unig yn dod ag arian i'r ysgol ond yn cefnogi mudiad Antur Waunfawr yn lleol.
- Mae cymeriad Cristnogol yr ysgol yn parhau i lywio ei hagwedd at faterion presenoldeb a gwahardd disgyblion ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn gyffredinol mae'r berthynas rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol wedi'i chysylltu â chymeriad a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol nac o fwlio. Mae polisi cynnal ymddygiad a holl ethos yr Ysgol yn hyrwyddo brawdgarwch a chyd-fyw. Hyrwyddir parch at wahaniaethau a chydraddoldeb hiliol trwy ein gwaith ABCh a'n gwasanaethau.Roedd presenoldeb y flwyddyn ysgol 2017 yn 96.8% ar gyfer disgyblion o oed mynychu gorfodol. Mae pob disgybl yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau ers blynyddoedd. Y mae'r rhieni yn ymrwymedig i gadw'r lefel presenoldeb yma.
- Mae gan ddysgwyr beth dealltwriaeth o etifeddiaeth Gristnogol Cymru ac o Gristnogaeth fel crefydd amlddiwylliannol ledled y byd, ac maent yn parchu amrywiaeth a gwahaniaethau o fewn y cymunedau ffydd eraill. Rhoddir pwyslais ar Gristnogaeth yn ein gwersi Addysg Grefyddol. Y mae'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth dda o straeon o'r Beibl ac o neges Efengyl Iesu Grist. Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynnion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- Mae'r ysgol wedi cychwyn perthynas gydag ysgolion eglwysig eraill. Mae hen wedi dechrau drwy'r Pennaeth newydd fod mewn gweithdy gydag ysgolion eglwysig eraill er mwyn greu cyswllt rwydwaith tros y we. Hefyd leni cafodd disgyblion blwyddyn 6 ar ddiwernod y gadawyr fynd i Ysgol Maesincla i gymeryd rhan mewn gweithdai penodol gyda disgyblion eraill o ysgolion eglwysig. Hyderir y bydd hyn yn parhau a datblygu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cryfderau Allweddol

- Perthynas rhagorol gyda'r eglwys leol a'r Parchedig Lloyd, sydd yn rhoi ymdeimlad Cristnogol gref yn y disgyblion.
- Naws deuluol yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd gartrefol a saff i'r disgyblion ffynnu a datblygu i'w llawn botensial.
- Nododd pob rhiant yn yr holiadur Haf 2018 eu bod yn gwbwl hapus gyda'r hyn mae'r ysgol yn gyflawni gyda chyrhaeddiad y disgyblion a'r cyfleodd meant yn dderbyn yn ogystal a'r awyrgyclh gartrefol sy'n cael ei hybu.

**<u>Cyd-addoli</u>**

- Mae aelodau cymuned yr ysgol yn deall pwysigrwydd cydaddoli ym mywyd yr ysgol ac yn gallu mynegi'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw'n bersonol.
- Mae cydaddoli'n aml yn cynnwys person yr Iesu, ac mae dysgwyr yn deall bod iddo le pwysig yn yr addoliad.
- Mae dysgwyr yn ymwybodol o Dduw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân wrth addoli ond heb lwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o hyn.
- Defnyddir deunydd Beiblaidd yn aml wrth gydaddoli a gall dysgwyr gysylltu rhywfaint o hyn â gwerthoedd allweddol yr ysgol a'u bywydau eu hunain.
- Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth o draddodiadau Cristnogol gwahanol wrth addoli, yn enwedig arferion lleol yr Eglwys yng Nghymru, er na allant bob amser eu trafod yn llawn. Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod gwerth addoliad, yn ymateb yn gadarnhaol ac yn barod i gymryd rhan.
- Mae themâu'n berthnasol ac yn rhoi sylw agos i ddatblygiad ysbrydol a moesol dysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cymryd rhai camau i wasanaethu eraill.
- Mae'r rhan fwyaf o elfennau'r addoli yn bresennol er bod rhai yn llai datblygedig nag eraill. Mae'r lleoliad yn briodol ac yn amrywio'n aml.
- Trwy gynllunio, sicrheir strwythur sy'n galluogi dysgwyr i ddod ar draws credoau Cristnogol. Mae addoli'n gysylltiedig ag adegau arwyddocaol ym mywyd yr ysgol a thymhorau'r Eglwys. Dethlir y rhan fwyaf o'r gwyliau Cristnogol neu cânt eu cydnabod yng nghyd-destun addoli. Ceir cyfraniadau rheoliadd gan Parchedig Lloyd ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Bydd y Parchedig Lloyd yn cynnal gwasanaethau wythnosol a bydd y plant hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn Eglwys y pentref - gwasanaeth Diolchgarwch a gwasanaeth Nadolig.
- Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y gwasanaeth boreol, yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Mae lle i ddatblygu cyfnodau ble mae'r dysgwyr yn deall diben gweddi a myfyrdod mewn cyd-destun ffurfiol ac anffurfiol. Yna hyderir y gall llawer o'r disgyblion ddefnyddio gweddi yn eu bywydau personol a cyfrannu gweddïau perthnasol a phriodol yn gyson i wasanaethau yn yr ysgol.

Cryfderau Allweddol

- Dywedodd y rhan fwyaf o rieni fod gwerthoedd ac agwedd yr Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn (Holiadur Mai 2017)
- Mae cyswllt arbennig rhwng yr ysgol, y Parchedig Lloyd a'r eglwys leol. Effaith hyn yw fod y disgyblion yn datblygu ymdeimlad o fod yn aelod nid yn unig o deulu'r eglwys ond hefyd y gymuned ehangach.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: DA**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Mae gan ddysgwyr beth dealltwriaeth o etifeddiaeth Gristnogol Cymru ac o Gristnogaeth fel crefydd amlddiwylliannol ledled y byd, ac maent yn parchu amrywiaeth a gwahaniaethau o fewn y cymunedau ffydd eraill. Rhoddir pwyslais ar Gristnogaeth yn ein gwersi Addysg Grefyddol. Y mae'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth dda o straeon o'r Beibl ac o neges Efengyl Iesu Grist. Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynnion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Cryfderau Allweddol

- Perthynas rhagorol gyda'r eglwys leol a'r Parchedig Lloyd, sydd yn rhoi ymdeimlad Cristnogol gref yn y disgyblion.
- Naws deuluol yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd gartrefol a saff i'r disgyblion ffynnu a datblygu i'w llawn botensial.
- Nododd pob rhiant yn yr holiadur Haf 2018 eu bod yn gwbwl hapus gyda'r hyn mae'r ysgol yn gyflawni gyda chyrhaeddiad y disgyblion a'r cyfleodd meant yn dderbyn yn ogystal a'r awyrgyclh gartrefol sy'n cael ei hybu.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DDA**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Mynegir gwerthoedd penodedig Gristnogol yn glir. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o aelodau'r ysgol yn adnabod nodweddion penodedig gwerthoedd yr ysgol ac yn nodi sut maent yn effeithio ar eu bywyd beunyddiol a'u cyflawniadau. Gweledigaeth yr Ysgol yw ein bod yn darparu awyrgylch ac amodau lle y gall pob plentyn ffynnu. Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.
- Mae gan yr ysgol ddiffiniad clir o ysbrydolrwydd y mae'r rhan fwyaf o oedolion yn ei ddeall. Nodir profiadau yn y cwricwlwm, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hysbrydolrwydd. Mae dysgwyr yn ymateb yn dda ac yn datblygu'r gallu i fynegi eu meddyliau'n glir a hyderus. Cynhelir gwasaneth wythnosol yn yr eglwys dan arweiniad y Parchedig Lloyd, a chymerir cyfleon i gynnal gwsanaethau cristnogol rheolaidd yn yr eglwys megis Diolchgarwch, Nadolig a gwasanaeth ffarwelio diwedd blwyddyn. Mae cyfle hefyd i flwyddyn 6 yn flynyddol ymweld a'r Gadeirlan i fynychu gwasanaeth dathlu a pontio cynradd/uwchradd. Gwelir y cyswllt yma a'r eglwys yn rhagorol.Mae'r berthynas yma wedi cael ei ymestyn at y Gadeirlan ym Mangor gyda un disgybl yn aelod o gôr y gadeirlan.
- Mae cymeriad a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr. Mae'r ysgol yn cyfrannu yn rheoliadd i elusennau lleol a chenedlaethol megis McMillan, Teams2U ayyb Rydym hefyd yn ail-gylchu dillad yn yr ysgol sydd nid yn unig yn dod ag arian i'r ysgol ond yn cefnogi mudiad Antur Waunfawr yn lleol.
- Mae cymeriad Cristnogol yr ysgol yn parhau i lywio ei hagwedd at faterion presenoldeb a gwahardd disgyblion ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn gyffredinol mae'r berthynas rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol wedi'i chysylltu â chymeriad a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol nac o fwlio. Mae polisi cynnal ymddygiad a holl ethos yr Ysgol yn hyrwyddo brawdgarwch a chyd-fyw. Hyrwyddir parch at wahaniaethau a chydraddoldeb hiliol trwy ein gwaith ABCh a'n gwasanaethau.Roedd presenoldeb y flwyddyn ysgol 2017 yn 96.8% ar gyfer disgyblion o oed mynychu gorfodol. Mae pob disgybl yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau ers blynyddoedd. Y mae'r rhieni yn ymrwymedig i gadw'r lefel presenoldeb yma.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DDA**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Mae aelodau cymuned yr ysgol yn deall pwysigrwydd cydaddoli ym mywyd yr ysgol ac yn gallu mynegi'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw'n bersonol.
- Mae cydaddoli'n aml yn cynnwys person yr Iesu, ac mae dysgwyr yn deall bod iddo le pwysig yn yr addoliad.
- Mae dysgwyr yn ymwybodol o Dduw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân wrth addoli ond heb lwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o hyn.
- Defnyddir deunydd Beiblaidd yn aml wrth gydaddoli a gall dysgwyr gysylltu rhywfaint o hyn â gwerthoedd allweddol yr ysgol a'u bywydau eu hunain.
- Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth o draddodiadau Cristnogol gwahanol wrth addoli, yn enwedig arferion lleol yr Eglwys yng Nghymru, er na allant bob amser eu trafod yn llawn. Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod gwerth addoliad, yn ymateb yn gadarnhaol ac yn barod i gymryd rhan.
- Mae themâu'n berthnasol ac yn rhoi sylw agos i ddatblygiad ysbrydol a moesol dysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cymryd rhai camau i wasanaethu eraill.
- Mae'r rhan fwyaf o elfennau'r addoli yn bresennol er bod rhai yn llai datblygedig nag eraill. Mae'r lleoliad yn briodol ac yn amrywio'n aml.

| |
|---|
| • Trwy gynllunio, sicrheir strwythur sy'n galluogi dysgwyr i ddod ar draws credoau Cristnogol. Mae addoli'n gysylltiedig ag adegau arwyddocaol ym mywyd yr ysgol a thymhorau'r Eglwys. Dethlir y rhan fwyaf o'r gwyliau Cristnogol neu cânt eu cydnabod yng nghyd-destun addoli. Ceir cyfraniadau rheoliadd gan Parchedig Lloyd ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Bydd y Parchedig Lloyd yn cynnal gwasanaethau wythnosol a bydd y plant hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn Eglwys y pentref - gwasanaeth Diolchgarwch a gwasanaeth Nadolig.<br>• Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y gwasanaeth boreol, yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Mae lle i ddatblygu cyfnodau ble mae'r dysgwyr yn deall diben gweddi a myfyrdod mewn cyd-destun ffurfiol ac anffurfiol. Yna hyderir y gall llawer o'r disgyblion ddefnyddio gweddi yn eu bywydau personol a cyfrannu gweddïau perthnasol a phriodol yn gyson i wasanaethau yn yr ysgol. |

| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn:** **DA** | | | | |

| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Mae arweinwyr yn cyfleu a hyrwyddo gweledigaeth ar sail gwerthoedd penodedig Gristnogol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid. Cynhelir gwasanaethau a gwersi penodol ar y gwerthoedd Cristnogol sydd yn sail i'r weledigaeth. Hyderir y gall hyn roi cyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i ymestyn dealltwriaeth ac i fynegi'r gwerthoedd mewn amrywiol ddulliau.<br>• Mae arweinwyr yn disgrifio effaith gwerthoedd Cristnogol ar y dysgwyr ac ar holl fywyd yr ysgol.<br>• Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad ac arbenigrwydd yr ysgol ar sail strategaethau hunanwerthuso'r ysgol.<br>• Wrth hunan arfarnu cyfeiriad Cristnogol yr Ysgol ychwanegwyd blaenoriaeth i CDY 2018-19 sydd yn cynnwys cynllun penodol i HUNAN ARFARNU a ddatblygu cymeriad Cristnogol yr Ysgol. Y mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu pendant ac yn gosod amserlen bendant i'w ddilyn. Y mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd yn eu cyfarfodydd. Bydd hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio gwelliannau yn yr ysgol. Bydd hefyd cyflawniad ac arbenigrwydd yn gwella neu bydd perfformiad da blaenorol yn cael eu h'atgyfnerthu ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr.<br>• Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydaddoli, AG ac agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu llywio gan werthoedd penodedig Gristnogol sy'n cyfrannu at ymddygiad ac agweddau da'r dysgwyr ynghyd â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae dau gynrychiolydd eglwysig ar y corf llywodraethu sef y Parchedig Lloyd a Mrs Susan Williams.<br>• Mae rhieni, yr eglwys, yr esgobaeth a'r gymuned ehangach yn cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol mewn modd sy'n sicrhau manteision clir i ddysgwyr, gan gynnwys eu dealltwriaeth o gymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'r disgyblion yn ymweld yn wythnosol a'r eglwys ac wedi derbyn ymweliad gan yr Esgob Andy. Hefyd yn flynyddol mae disgyblion blwyddyn 6 yn cael ymweld a'r Gadeirlan ar gyfer gwasanaeth ffarwelio. Y mae nifer helaeth o staff wedi cael cyfle i fynd gyda'r disgyblion i'r digwyddiad ac mae hyn wedi bod yn hyfforddiant ac yn ddatblygiad proffesiynol iddynt hwythau.<br>• Y mae cyflenwad da a digonol o adnoddau Addysg grefyddol ar gael yn yr Ysgol. Pan fydd angen adnodd arbennig arnom y mae'r Rheithor/ aelodau o'r Eglwys yn cynorthwyo. Bellach hefyd mae rhwydwaith o ysgolion eglwysig yn rhannu adnoddau arlein dan arweiniad Swyddog Addysg yr Esgobaeth.<br><br>Cryfderau Allweddol<br>• Mae'r Pennaeth a'r staff yn modelu ac yn hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn:** **DA** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| Datblygu'r elfen o gydweithio ysgol i ysgol er mwyn cryfhau y gweithgareddau a'r | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwerthoedd a gynnigir yn yr ysgol yn barod. | | sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Disgyblion hyn yr ysgol i gadw cofnod o storïau/ themau ac emynau'r gwasanaethau ac i lunio arfarniad byr o'r gwasanaethau gan ganolbwyntio ar effaith y gwasanaethau | | | |
| Disgyblion i gymeryd fwy o rol yn nhrefniadaeth gwasanaethau'r ysgol gan gyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrio ar yr hyn a drafodwyd. Hefyd datblygu cyfleon i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. | | | |
| Datblygu staff a llywodraethwyr fel arweinwyr mewn ysgolion eglwysig. Rhoi cefnogaeth dda i arweinwyr ym maes addoli ac AG i gyflawni eu rolau er mwyn eu galluogi i gyflawni gwelliannau neu i gynnal arferion da blaenorol. | | | |
| Adolygu ac adnewyddu'r polisi addoli | | | |
| Plethu Gwerthoedd Cristnogol fwyfwy i mewn i gwricwlwm yr Ysgol | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

- Mae'r cyswllt cymunedol yn bwysig iawn yng ngwaith a gweledigaeth yr ysgol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau, sioeau, eisteddfodau a gwasanaethau yn rheolaidd. Byddent hefyd yn magu hyder ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio ei iaith lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor Ysgol yn hynod weithgar ac yn cyfarfod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o benderfyniadau a thrafodaethau y Cyngor Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

**Enw'r pennaeth CARYS WYN THOMAS**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad: 1/10/19**

## Atodiad 3

**Monitro Tymor yr Haf – Hydref 2019**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| Ysgolion Uwchradd | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Haf 2019 | | | | | | | | |
| Hydref 2019 | | | | | | | | |

| Ysgolion Cynradd | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn 2019** | | | | | | | | |
| **Llandygai** | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | 18/03/19 | 23/05/19 | **Da** |
| **Haf 2019** | | | | | | | | |
| **Pentreuchaf** | Da | Da | Da | Da | Da | 29/04/19 | 03/07/19 | **Da** |
| **Bethel** | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | 13/05/19 | 16/07/19 | **Rhagorol** |
| **Garnedd** | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | 20/05/19 | 23/07/19 | **Da** |
| **Tudweiliog** | Da | Da | Da | Da | Da | 10/06/19 | 12/08/19 | **Da** |
| **Llandwrog** | Da | Da | Da | Da | Da | 08/07/19 | 10/09/19 | **Da** |
| **Hydref 2019** | | | | | | | | |

| Ysgolion Arbennig | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor yr Haf 2019 cafodd **5** ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd ? ysgol gynradd yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd ac 0 arbennig yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, ddiwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn: Tymor y Gwanwyn 2019**

**Ysgol Llandygai (Mawrth 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae ethos yr ysgol, a'r gwasanaethau cyd-addoli, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn synhwyrol, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch.

Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliant Cymru. Maent yn cystadlu mewn eisteddfodau, yn dysgu chwedlau fel Cantre'r Gwaelod ac yn gwrando ar gerddoriaeth draddodiadol a chyfoes. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwledydd eraill trwy weithgareddau'r cwricwlwm a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r ymweliad diweddar gan fyfyrwyr o Siapan a fu'n dysgu'r disgyblion am eu traddodiadau cerddorol, eu bwydydd a'u hiaith. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymwneud â'r celfyddydau creadigol yn effeithiol. Enghraifft arbennig o hyn yw'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a chwmni theatr lleol, lle bu'r disgyblion yn gweithio gydag artistiaid, actorion, dawnswyr a cherddorion i greu rhaglen ddogfen o ansawdd uchel a phroffesiynol.

**Sylwadau Estyn: Tymor yr Haf 2019**

**Ysgol Pentreuchaf** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr iddynt. Mae'r ysgol wedi rhoi systemau cadarn yn eu lle er mwyn cefnogi lles emosiynol carfan o ddisgyblion ac i hyrwyddo ymddygiad da.

Mae cyfeillion yr ysgol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu at brosiectau a chymuned yr ysgol. Enghreifftiau o hyn yw cynnal bore coffi MacMillan a chynnal noson i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned. Mae'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn rhoi cyflwyniadau gwerthfawr i rieni ar brosiectau cerdd a chân ac ailgylchu. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y rheini o waith y disgyblion yn yr ysgol ac yn eu galluogi i gefnogi eu gwaith yn y cartref.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn ogystal â chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd helpu eraill yn gyson, er enghraifft trwy gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o anghenion pobl eraill yn effeithiol.

**Ysgol Bethel** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae'r holl athrawon yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol iawn o strategaethau fel y pwerau dysgu a'r dyffryn dysgu i annog y disgyblion i ddyfalbarhau. Mae hyn yn meithrin dysgwyr annibynnol sy'n mwynhau cyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith, esbonio sut i'w wella ac i anelu at gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r staff yn ystyried llais y disgybl o ddifri, sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at gyfleoedd iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn nodwedd arbennig. Nodwedd eithriadol o'r ddarpariaeth yw'r modd y mae athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a'u medrau TGCh wrth ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Mae'r defnydd dychmygus o lechi electronig yn cyfrannu'n sylweddol at hyn, er enghraifft wrth i ddisgyblion greu cyflwyniadau dramatig o safon uchel am gorryn chwantus yn bwyta adar. Mae'r ysgol yn cefnogi'r eisteddfod leol yn rheolaidd yn ogystal â chyflwyno cyngherddau a sioeau Nadolig. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio ac i gyfrannu yng ngweithgareddau eu cymuned leol.

**Ysgol y Garnedd (Mai 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol, er enghraifft trwy fod yn aelodau o'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r 'dewiniaid digidol'. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd eu rolau o ddifrif gyda'u cyfraniad yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod 'Llyfrau Llais Plant' defnyddiol ar gael ym mhob dosbarth a chyflwyno gwersi buddiol i ddisgyblion ar bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digon cyson i gynrychiolaeth ehangach o'r disgyblion dderbyn cyfrifoldebau a chwarae rhan lawn wrth wneud penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd hynod werthfawr i'r disgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r gymuned leol a'r byd ehangach. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog iawn. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwahodd ymwelydd o'r brifysgol i drafod y difrod a wnaiff plastig i fywyd gwyllt y môr, a threfnu sgwrs dros y we gydag arbenigwr o Ecuador i drafod effaith datgoedwigo ar y fforestydd glaw.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n bwrpasol yn ystod gwasanaethau, trwy arwain y gweddïo neu ganu'r piano. Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth eang i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion yn effeithiol iawn. O ganlyniad, caiff bron pob un o'r disgyblion gyfleoedd buddiol i ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, maent yn astudio ac efelychu gwaith artistiaid ac awduron lleol a pherfformio mewn eisteddfodau, cyngherddau a gwasanaethau yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig tuag at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymreig a magu eu hunanhyder yn llwyddiannus

**Ysgol Tudweiliog (Mehefin 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi'r disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn y pentref a'r gymuned ehangach ac yn annog disgyblion yn gyson i ddangos balchder yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect 'Meddiannu'r Amgueddfa' lle caiff y disgyblion gyfle i gydweithio'n agos ag amgueddfa forwrol leol a chynnal sesiynau yn yr amgueddfa efo'r ymwelwyr. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Trwy astudio hanes Martin Luther King a Rosa Parks, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o degwch a hawliau dynol. Mae hyn yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cymdeithas yn effeithiol. Trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol, mae'r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Cefnogir hyn yn dda trwy drefnu i'r disgyblion ymweld â mosg a'r eglwys gadeiriol fel rhan o'u gwersi. Mae'r eglwys a'r capel lleol yn adnoddau gwerthfawr i'r ysgol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig a'r cynhaeaf. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus.

**Ysgol Llandwrog (Gorffennaf 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Ceir ymdeimlad o dîm, gyda phob aelod o staff yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi bron pob un disgybl a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol. Darperir nifer fawr o ddigwyddiadau ac ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion, sy'n hybu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol. Trwy gyfleoedd i gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn yr ardal leol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau

mynegiannol yn llwyddiannus iawn.  Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu profiadau creadigol disgyblion, trwy wahodd beirdd, cerddorion, awduron ac actorion i gydweithio â nhw.  Enghraifft dda o hyn yw ymweliad cwmni dawns i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion feithrin medrau perfformio.  Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o’r disgyblion a’u gallu i gydweithio’n effeithiol.

Mae gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn.  Mae hyn yn galluogi’r staff i adnabod anghenion ychwanegol disgyblion yn gynnar a darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion penodol.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion gydag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

## Atodiad 4

## Sylwadau perthnasol i Gyd-addoli a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn adroddiadau diweddar ESTYN

### Ysgol Gwaun Gynfi Mai 2022

Mae'r ysgol yn hybu datblygu medrau cymdeithasol, moesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol yn ystod sesiynau addoli ar y cyd a gwersi dosbarth. Cynhelir gwasanaeth addoli rheolaidd sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar agweddau crefyddol pwysig fel gonestrwydd a bod yn garedig at eraill. Er bod cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldebau trwy grwpiau llais y plentyn fel y cyngor ysgol, wedi eu cyfyngu oherwydd y pandemig, mae'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu iddynt.

### Ysgol Chwilog Mai 2022

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu llwyddiannau disgyblion yn ystod gwasanaethau cydaddoli. Yn ogystal, darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan drwy arwain yr addoli, er enghraifft wrth i ddisgyblion arwain gweddi i'w cyfoedion.

### Ysgol Tanycastell Mai 2022

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn creu ethos sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion i drafod emosiwn a theimladau, er enghraifft drwy drafod stori Sŵ Sara Mai a cherddi sy'n disgrifio gwahanol emosiynau. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd trwy drafod agweddau o'r fasnach deg ac effaith newid hinsawdd ar gynefin yr arth wen.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Medi 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Beca Brown** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Buddug Mair Huws** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34319** |
| **Teitl yr Eitem:** | **CYMERADWYO A MABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CYNGOR GWYNEDD** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo a mabwysiadu Maes llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag argymhelliad yr Adran Addysg a Chyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Gwynedd a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae dyletswydd cyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'r awdurdod lleol er mwyn iddo ei fabwysiadu. Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol o'r farn (ar sail sylwadau a wneir iddo neu fel arall) y dylid ailystyried y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am alw'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd at y diben hwnnw. Dylid ailystyried y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn pob pum mlynedd. Yn sgil dyfodiad Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a sefydlu'r Gwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Gwynedd ar y 15fed o Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 3.1 Cefndir

Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002).

Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi pedwar diben y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi'r elfennau mandadol canlynol sydd, ac eithrio Saesneg, yn rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed:

sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
enwau'r meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)
addysg cydberthynas a rhywioldeb
**crefydd, gwerthoedd a moeseg**
Cymraeg
Saesneg – o 7 oed sydd yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd

Ar ôl i faes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel eu maes llafur cytunedig, caiff wneud hynny.

### 3.2 Swyddogaeth Statudol CYSAG

- Ystyried ac argymell maes llafur cytunedig i'r Awdurdod Lleol yn dilyn cynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig [‘CMLlC’];
- Nid yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn pennu erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gyntaf baratoi ac argymell maes llafur cytunedig. Rhaid i'r awdurdod lleol fabwysiadu maes llafur newydd yn lle'r maes llafur cytunedig presennol i'w ddefnyddio mewn ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Felly, bydd angen i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig gael eu sefydlu mewn da bryd i gyflwyno maes llafur cytunedig yn unol â'r broses o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn 2022. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am weinyddu hyn.

### 3.3 Statws Cyfreithiol y Canllawiau Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

### 3.4 Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru

Bu gwaith ymgynghori cynghwysfawr ar y Canllawiau o fis Mawrth 2020 ymlaen ac fe fu Cymdeithas CYSAGauCymru yn ran annatod o’u creu. Ffrwyth llafur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yw’r canllaw a gyhoeddwyd bellach gan Lywodraeth Cymru.

Ni fwriedir i'r maes llafur cytunedig fod yn gynllun gwaith. Yn hytrach, bwriedir iddo fod yn ganllaw ac yn bwynt cyfeirio defnyddiol i ysgolion er mwyn eu helpu i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol ar gyfer eu dysgwyr sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

**4.1** Rhannu Maes Llafur Cytunedig Gwynedd ag ysgolion Gwynedd erbyn yr 16eg o Fedi 2022

## 5. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMHELL Y PENDERFYNIAD

**5.1 Barn Adran Addysg Gwynedd:** Mae'r Adran Addysg yn awyddus i sicrhau bod yr addysg grefyddol a gyflwynir yn ein hysgolion yn adlewyrchu natur y gymdeithas leol a safbwyntiau trigolion Gwynedd.

**5.2 Barn CYSAG Gwynedd:** Ar 12 Gorffennaf 2022 bu i CYSAG Gwynedd gytuno i argymhell y dylai'r Cabinet dderbyn a mabwysiadu Maes Llafur Cytunedig yn unol â phenderfyniad y Gynhadledd.

**5.3 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:** Mae'r adroddiad wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:** Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Dogfennau Cefndir**

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#crefydd,-gwerthoedd-a-moeseg

*Canllawiau ar Grefydd,Gwerthoedd a Moeseg*

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cymdeithas CYSAGau Cymru Sir Baenau Gwent, cyfarfod rhithiol trwy TEAMS.***

***Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2022 (1 – 3.30yp).***

***Bydd y cyfarfod yn agor am 12.45 i sicrhau mynediad i ddechrau'r cyfarfod yn syth am 1yp.***

**Bilingual Agenda** (Please scroll down for English version.)

1. Cyflwyniad a chroeso

2. Myfyrdod tawel

3. Ymddiheuriadau

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf rhithiol trwy Microsoft Teams, 29 Mehefin 2022

5. Materion sy'n codi o'r cofnodion y cyfarfod diwethaf

6. Datblygiad Proffesiynol

7. Materion Llywodraeth Cymru:

- Cyfarfodydd
- Meysydd llafur cytunedig
- Adroddiadau blynyddol
- Materion eraill

8. Cyflwyniad PYCAG: Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: TGAU Newydd – Astudiaethau Crefyddol (Paula Webber a Rachel Samuel)

Gweler: hiips://dweudeichdweud.cymwysterau.cymru/

9. Diweddariad:

- CAG (Kathy Riddick)
- EFTRE (Phil Lord)
- MAGC (Paul Morgan)
- PYCAG (Paula Webber)
- IFN (Libby Jones)
- Estyn (Gwawr Meirion)
- CBAC (Christopher Owens)
- Adroddiad o'r pwyllgor gwaith cynhaliwyd ar 5 Hydref 2022 (Tania ap Sion)

10. Gohebiaeth (Alice Parry)

11. Unrhyw Faterion Arall (i'w gytuno â'r Cadeirydd cyn y cyfarfod)

12. Dyddiad cyfarfod nesaf: 21 Mawrth 2023, Sir Benfro

***Wales Association of SACREs Blaenau Gwent virtual meeting through TEAMS.***

***Wednesday, 16 November 2022 (1pm – 3.30pm).***

***The meeting will open from 12.45pm to ensure access. The meeting will start promptly at 1pm.***

**Agenda**

1. Introduction and welcome

2. Quiet reflection

3. Apologies

4. Minutes of the last meeting, Microsoft Teams, 29 June 2022

5. Matters arising from the minutes of the last meeting

6. Professional Learning

7. Welsh Government matters:

- Meetings
- Agreed syllabi
- Annual Reports
- Other matters

8. NAPfRE presentation: : Qualifications Wales Consultation: New GCSE – Religious Studies (Paula Webber a Rachel Samuel)

See: hiips://haveyoursay.qualifications.wales/

9. Up-dates:

- REC (Kathy Riddick)
- EFTRE (Phil Lord)
- REMW (Paul Morgan)
- NAPfRE (Paula Webber)
- IFN (Libby Jones)
- Estyn (Gwawr Meirion)
- WJEC (Christopher Owens)
- Report from the Executive Committee held on 5 October 2022 (Tania ap Sion)

10. Correspondence

11. Any other business (to be agreed in advance of the meeting with the Chair)

12. Date for next meeting: 21 March 2023, Pembrokeshire

Annwyl Glerc CYSAG / Dear Clerk to SACRE,

Eleni cynhelir yr wythnos Ryng-ffydd rhwng 13 a 20 Tachwedd / This year the Interfaith week will be held between 13 and 20 November.

Efallai y bydd rhai o'ch ysgolion yn cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau yn yr wythnosau nesaf i ddathlu wythnos Ryng-ffydd / Some of your schools may be planning events and activities in the coming weeks to celebrate Interfaith week.

Mae'r ddolen ganlynol yn galluogi ysgolion i gyflwyno gweithgaredd, os dymunant, i wefan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd, lle bydd yn ymddangos yn y rhestrau digwyddiadau ac ar y map gweithgareddau / The following link enables schools to submit an activity, if they wish, to the Interfaith Network website, where it will appear in the event listings and on the activities map. https://www.interfaithweek.org/events/submit

Gellir nodi digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr a staff yn unig, os yw'n well ganddynt / Events can be marked for students and staff only, if they prefer.

Wrth gyflwyno gweithgaredd, gall ysgolion hefyd ofyn am becyn brandio am ddim sy'n cynnwys poster, taflenni, sticeri a cherdyn cyfryngau cymdeithasol / When submitting an activity, schools can also request a free branding pack which contains a poster, flyers, stickers and a social media card.

Gobeithiwn y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi / We hope you find this useful.

With best wishes,
Libby

Libby Jones
Assistant Secretary to WASACRE
Ymgynghorydd Addysg Grefyddol / Religious Education Adviser
*Dyddiau gwaith: Dydd Llun i Dydd Iau*
*Working Days : Monday to Thursday*
Rhif symudol / Mobile number: 07579 016489

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR
Wrexham County Borough Council, Lambpit Street, Wrexham LL11 1AR
wrexham.gov.uk | wrecsam.gov.uk
twitter.com/wrexhamcbc | twitter.com/cbswrecsam
facebook.com/wrexhamcouncil | facebook.com/cyngorwrecsam

Please note, emails without a subject will not, unfortunately, be delivered to this email address/
*Nodwch, ni fydd negeseuon e-bost heb pwnc, yn anffodus, yn cael ei gyflwyno i'r cyfeiriad e-bost*